


Brig y Goeden



Robin Woods a'i Ddynion Llon

MICHAELA MORGAN



Robin Woods a'i Ddynion Llon

MICHAELA MORGAN

Lluniau gan Doffy Weir



DRAKE

Pennod 1


Robin Woods ydw i.



Fi ydi'r cyntaf bob amser i feddwl am
jôc dda.



Fi ydi'r cyntaf bob amser i gadw fy
ngwaith ar ddiwedd pob diwrnod.



Ond rywfodd nid fi fydd y cyntaf i gael
ei ddewis ar gyfer timau a dramâu ... byth.


Bedwyr Cawr Mawr a Beca Hen Geg
fydd yn cael dewis timau rownderi bob
amser.

“Cymera i Jac a Selwyn a Jordan a
Sam,” meddai Bedwyr Cawr Mawr.



“Cymera i Cadi a Manon a Menna
a Meinir,” meddai Beca Hen Geg.





A thi, a thi a
thi a thitha ...


A thi a thi
a thi ... a thitha

Beth am Robin?

Yna byddan nhw'n
edrych y naill ar y llall.

Pwy sy'n mynd i gymryd Robin?

Felly fydd hi efo drama'r ysgol hefyd.



Y Nadolig cyntaf roeddwn
i yn yr ysgol gwnaethon ni
Ddrama'r Geni.

Na, nid fi oedd Joseff.
Doeddwn i ddim yn un
o'r Doethion chwaith.
Nid bugail oeddwn i.

Dafad oeddwn i.
Roedd yn rhaid imi sefyll yno
yn wlanog ac yn ddistaw.
Doeddwn i ddim hyd yn
oed yn cael dweud 'Meeee'.




Y flwyddyn wedyn, Hympti
Dympti oedd y ddrama.


Na, nid fi oedd Hympti Dympti. Cadi
oedd hwnnw.

Doeddwn i ddim yn un o ddyinion y
brenin.

Beca, Jac a Selwyn oedd y rheini.



Doeddwn i ddim
yn un o geffylau'r
brenin chwaith.



Bricsen yn y wal oeddwn i.

Roedd rhaid imi sefyll yno yn gwisgo
bocs, ac yna syrthio.



Y flwyddyn wedyn Y Pibydd Brith
oedd y perfformiad.

Na, nid fi oedd y Pibydd Brith. Jordan
oedd o (am ei fod yn medru chwarae'r
recorder).

Nid fi oedd y Maer. Bedwyr oedd o
(am ei fod o'n fawr).


Doeddwn i ddim yn un o bobl y dref a
doeddwn i ddim yn un o'r plant.

Llygoden fawr oeddwn i.



Y tro yma roedd gen i eiriau i'w dysgu a'u
dweud. 'Rhan siarad', medden nhw.


Roedd yn rhaid imi
ddweud



Roedd yn fwy o ran gwichian nag o
ran siarad.

Pennod 2

Galwodd Miss Gruffydd, ein hathrawes, bawb at ei gilydd.



Hanes Robin
Hwd a'i
Ddynion Llon
fydd ein drama
ni
eleni.

“Ddim yn deg!” meddai Beca.

“Beth am ei ferched llon?”

“Ddim yn deg!” meddai Selwyn.

“Beth am ei ddynion trist?”

“Beth am fynd ati i drefnu?”

meddai Miss Gruffydd. “Pwy hoffai fod yn Robin Hwd?”

Saethais fy llaw i'r awyr.




Fi!

“Robin ...” meddai Miss Gruffydd.


“Robin yn Robin Hwd; Robin yn Robin Hwd!” gwaeddodd Bedwyr.

Ond anwybyddais o. "Mae gen i
ddiddordeb mawr yn Robin Hwd,"
eglwrais.

"Dwi'n gwybod y storïau i gyd.
Mae'r llyfrau i gyd gen i.
Mae gen i fwa a saeth.
Mae gen i wisg Robin Hwd
hyd yn oed," meddwn i.



"Ond rydw i eisio bod yn Robin Hwd,"
meddai Beca Hen Geg.
"A fi!" meddai Bedwyr.



“Caiff pawb gyfle,” meddai Miss Gruffydd. “Dyma nhw’r rhannau.”

Robin Hwd

Marian Forwyn

Siôn Fychan

Y Brawd Tuck

Siryf Nottingham

Alan a Dale

Y Clerwr

Wil Sgarlad

“Mae yna rannau hefyd ar gyfer pentrefwyr, marchogion, boneddigesau ... ac wrth gwrs bydd angen digon o goed i fod yn goedwig.”

Gwn i’n iawn
beth fydda i.



Pennod 3



“Betia i mai coeden fydda i,” ochneidiais.

“Nage,” meddai Beca. “Llwyn bychan bach fyddi di ...”

“Neu frigyn bach pitw,” meddai Bedwyr.



“Byddwch ddistaw,” meddai Miss Gruffydd.



Cewch chi i gyd gyfle i roi cynnig am ran. Ewch â thudalen o'r sgrïpt adre ichi gael ymarfer. Rho i brawf ichi Dydd Llun i benderfynu pwy fydd y gorau ar gyfer pob rhan.

Cymerais gopi o eiriau rhan Robin Hwd.




Robin
Hwd
(yn
dewr)

Foneddigion a boneddigesau -
Robin Hwd dewr ydw i. Dydd da!
Rwy'n byw yn y Goedwig Werdd, Yn
ymladd â'r gelyn, boed Aeaf neu Ha'.

Herwr dewr ...myn brain,
Yn ymladd â chleddyf llym,
Dwyn oddi ar y cyfoethog i fwydo'r
tlawd
Heb ofni neb na dim.

Marian
Forwyn


Y Brawd
Tuck



Roedd yna lawer o eiriau.
Ac roedd rhai ohonyn nhw
braidd yn
rhyfedd.

Myn brain?!


Ond roeddwn i'n
benderfynol o fod yn
Robin Hwd.



Dim ond synnwyr cyffredin ydi o,
yntê? Petai'ch enw chi yn Frank, byddai
gynnoch ddiddordeb yn Frankenstein.
Wrth gwrs.



Petai'ch enw chi yn Hywel, byddai
gynnoch ddiddordeb yn Hywel Dda.
Wrth reswm.




Ac yn naturiol, am mai Robin ydi
f'enw i, mae gen i ddiddordeb mewn arwr
o'r un enw â fi, bron â bod.

Nid fi ydi'r unig un sy'n sylwi mor debyg i Robin Hwd ydw i.

Mae pob un ewythr a modryb sydd gen i yn rhoi anrhegion Robin Hwd i mi.

Mae gen i dedis Robin Hwd (ers pan oeddwn i'n fychan.)



Mae gen i jig-sos Robin Hwd (a dydi hi ddim yn hawdd gwneud jig-so sydd bron i gyd yn wyrdd.)



coed gwyrdd het werdd

dillad gwyrdd

llwyni gwyrdd



Mae gen i fideos o bob ffilm
Robin Hwd ac ...mae gen i
gasetiau o ganeuon
Robin Hwd.




Roeddwn wedi gwneud fy
fersiwn fy hun. Byddwn yn carlamu o
amgylch y maes chwarae (pan oeddwn yn
fach) yn canu:

Robin Woods, Robin Woods
Yr herwr gorau erioed,
Robin Woods, Robin Woods
Herwr yn y coed,
Yn ddychryn i'r drwg,
Yn arwr i'r da,
Robin Woods, Robin Woods
Robin Woods.



Roedd fersiynau eraill, y rhan fwyaf
wedi eu gwneud gan Bedwyr ond
doeddwn i ddim yn hoffi rheini ryw lawer.

Robin Woods, Robin Woods
Yn rhedeg hyd y lle,
Robin Woods, Robin Woods
Dim syniad be' 'di be'.
Yn ddychryn i neb,
Yn arwr i'w hun,
Robin Woods, Robin Woods,
O Robin Woods!



Ond dim ots gen i fod Bedwyr yn
pryfocio. Rydw i eisiau actio rhan Robin
Hwd. Y drwg ydi fod Bedwyr eisiau
gwneud hefyd.

Pennod 4



Mae Bedwyr yn glyfar.

Yn glyfar iawn.

Pan fydd o'n cael geiriau i'w dysgu,
cyn ichi ddweud

ABRACADABRA

neu

SHAZAM

neu hyd yn oed

HEI, BE?


bydd wedi eu dysgu.

Mae'n rhaid imi ymdrechu mwy. Ond
es i â'r sript a phenderfynu y byddwn yn
ei dysgu erbyn dydd Llun.

Darllenais y geiriau ar fy
ffordd adref.




Dywedais i nhw'n glir ac yn groyw.



Bûm yn ymarfer y symudiadau.



Bûm yn ymarfer amser te.




Bûm yn ymarfer amser molchi.





Gorweddaf dan y goeden
werdd.

Bûm yn ymarfer amser gwely.
Bûm yn ymarfer drwy'r diwrnod wedyn.



Fi ydi Robin Hwd
gyda'i Ddynion Llon.

Sôn am waith caled! Roeddwn i'n
anghofio'r geiriau ac yn gwneud
camgymeriadau. Ond roddais i mo'r ffidil
yn y to.

Dydd Llun pan oedd pawb allan amser
chwarae, cefais gyfle i gynnig am y rhan.

“Paid â rhuthro. Cymer wynt mawr.
Paid â theimlo’n nerfus,” meddai Miss
Gruffydd.



A
llwyddais.

Siaradais yn glir ac
yn groyw.


Actiais yn
ardderchog
a chofiais
bob gair.

Cefais y rhan.



“Dysgaist ti’r rhan yn ardderchog,”
meddai Miss Gruffydd.

Dyma’r gweddill iti.






Pennod 5

Rhan Siôn Fychan gafodd Bedwyr.
Cafodd y rhan honno am mai fo ydi'r
mwyaf yn y dosbarth. Roedd o eisiau bod
yn Robin Hwd o hyd.

“Dwi'n edrych ymlaen at yr olygfa lle
byddwn ni'n ymladd â chleddyfau,”
meddai.



Wedyn cawn
ni weld pwy
ydi'r arwr
go iawn.


Hoffai Beca fod yn Robin Hwd hefyd
ond byddai hi wedi bod yn ddigon bodlon
bod yn Siôn Fychan. Ond rhan un o'r
boneddigesau gafodd hi. Roedd yn rhaid
iddi wenu o hyd a dweud, “Ie,
F'Arglwyddes.”



Jordan oedd y clerwr. Doedd o ddim eisiau bod yn y ddrama o gwbl, ond chafodd o ddim dewis gan Miss Gruffydd.



Mae rhan y clerwr yn un bwysig iawn ac yn berffaith ar dy gyfer di. Rwy'ti'n dda am ddysgu geiriau. Mae gen ti lais cryf, clir a ... ti ydi'r unig un sy'n medru chwarae gitâr.



Roeddwn i bob amser wedi meddwl mai dyn yn hel pryfed oedd clerwr, ond sylweddolais mai rhywun yn dweud storiâu ac yn canu ydi o. Y clerwr yn ein stori ni oedd yn adrodd y stori. Roedd yn ei dweud ar gân ac yn strymio tipyn ar y gitâr bob hyn a hyn. Roedd ganddo lwyth o eiriau i'w dysgu.

Wrth gwrs, y rhan orau a'r fwyaf oedd rhan Robin Hwd a fi oedd wedi ei chael hi.

**SEREN
O'R
DIWEDD**

“Ddysgi di byth hynna i gyd,”
meddai Bedwyr.

Pam na roi di'r
gorau iddi rŵan?




Ond roeddwn i'n benderfynol mai fi
fyddai'r Robin Hwd gorau erioed. Dwi
wedi cael rhan arwr, ac arwr fydda i.

Roedd gen i dair
wythnos i'w dysgu.
Roedd yn waith caled.


Roeddwn yn ymarfer
yn y parc. Helpodd fy
ffrindiau i.




Roeddwn yn
ymarfer yn yr
archfarchnad.
Helpodd
Mam fi.




Roeddwn yn ymarfer ar fy ffordd i'r
ysgol. Helpodd y ddynes lolipop fi.



Helpodd Beca hyd yn oed. Roedd hi wedi laru bod yn foneddiges felly bu'n ymarfer efo fi. Cymerodd ran Siôn Fychan a rhoddodd awgrymiadau imi sut i ymladd.





Ond roeddwn i'n dal i grynu yn fy sodlau pan oedd pawb (yn arbennig Bedwyr) yn gwyllo. Roedden nhw fel petaen nhw'n disgwyl imi wneud camgymeriadau. Ac fe wnes i ddigonedd.



Dyma fi'n dod, Robin Hwd,
a'm llo dynion dewr.

LLU
DYNION
DEWR!



Mwyaf yn y byd o gamgymeriadau roeddwn i'n eu gwneud, mwyaf yn y byd roeddwn i'n crynu yn fy sodlau mwyaf tu i'w gwneud.
Mwyaf yn y byd o gamgymeriadau roeddwn i'n eu gwneud.
Mwyaf yn y byd o gamgymeriadau roeddwn i'n eu gwneud.

Roedd fy mhen yn troi am 'mod i'n poeni gymaint.

Cryndod

Cafodd Miss Gruffydd air bach yn fy nghlust i.

"Robin," meddai hi.
"Wyt ti'n poeni tipyn bach am y ddrama?"

CYFOG

Poeni tipyn bach?

O nac oeddwn ...

Weithiau roeddwn i'n chwys domen.

Dro arall roeddwn i'n crynu yn fy sodlau.

CNOI EWINEDD

Crynai fy mhengliniau, teimlai fy nhraed fel talpiau o rew ac roeddwn yn groen gŵydd drosof gymaint â pheli golff.

iasau i lawr
asgwrn cern

CRENSIAN

DANNED

Fy nwylo'n crynu, fy nghoesau fel jeli, pili-palod gymaint â gwylanod yn fy mola.


Doeddwn i ddim yn poeni tipyn BACH.

Roedd arna i ofn **DRWY WAED FY NGHALON!!!**


Ond yn dal yn benderfynol o fod yn Robin Hwd.

Pennod 6

Roeddwn i'n gwneud fy ngorau glas i ymarfer gartref, ond ers i Taid ddod i fyw aton ni, does dim llawer o le acw.



Roedd eco gwych pan oeddwn i'n ymarfer yn yr ystafell molchi ond doedd neb yn rhyw awyddus iawn i mi ymarfer yno.



Yna dywedodd Taid, "Cei di ymarfer yn fy sied i. Cei di lonydd yn fan'no."

Yn y sied mae Taid yn cadw'r holl bethau y daeth â nhw efo fo wedi i Nain farw. Mae ganddo focsys yn llawn o hyn a'r llall fydd yn handi rywdro, meddai fo.

Daeth o a Mam i lawr i glirio lle i mi.




"Os symuda i'r bocs cei di eistedd yn fan'ma," meddai Mam. "O, edrychwch beth sydd yn fan'ma! Eich hen fanjo. Byddech chi wrth eich bodd yn chwarae hwnna."

“Chwaraewch diwn imi, Taid,”
meddwn i.

Ochneidiodd. “Dydi o ddim ’run fath
heb dy Nain,” meddai. “Byddai hi wrth ei
bodd yn fy nghlywed i’n chwarae.”


“Ond bydden ninnau wrth ein
bodd hefyd.” Pwniodd Mam fi. Roedd hi
wedi bod yn ceisio codi calon Taid ers
hydoedd.

“Bydden,” meddwn i.



Pam na wnewch chi fy helpu i efo
golygfeydd y clerwr? Cewch chi
ganu’i eiriau a chwarae’r banjo.

“Byddai hynny’n andros o help iddo,”
meddai Mam.




O, iawn ...

Rhoddodd Taid blwc bach
llipa i’r banjo.

plinc

plonc

Ar ôl hanner awr doedd dim taw arno.
Roedd yn canu'n uwch ac yn uwch, yn
dyrnu'i draed ar y llawr ac yn chwarae'n
gyflymach ac yn gyflymach, gan wneud
i'r clerwr ddod yn fyw. Roedd o hyd yn
oed wedi dyfeisio dawns
y clerwr.




Roedden ni'n ymarfer bob dydd.
Cododd ei galon yn arw. A finnau
hefyd. Roedd yn gwneud dysgu'r geiriau
yn haws o lawer ac roedd yn hwyl.


Cefais docyn ychwanegol i'r ddrama.
Roeddwn yn meddwl y byddai Taid
eisiau dod.

stomp
stomp

Roedd yr ymarferiadau yn yr ysgol yn haws o lawer. Roeddwn i'n cofio fy ngeiriau yn eithaf da, ond roedd yn anodd actio efo Bedwyr, yn arbennig yn yr olygfa lle roedden ni'n ymladd i groesi'r afon. Byddai bob amser yn gweiddi'r rhan honno braidd yn rhy uchel.




Byddai'n curo fy nghefn braidd yn rhy aml.



A byddai bob amser yn fy ngwthio i braidd yn rhy galed.



Yn yr ymarfer terfynol aeth dros ben llestri yn lân. Roedd yn chwifio'i ffon rownd a rownd yn yr awyr.

“Pwyll piau hi, Bedwyr,” meddai Miss Gruffydd.



Ond roedd o'n gweiddi'n uwch ac yn uwch ac yn gwthio'n galetach ac yn galetach nes ...

syrthiodd o dros ochr y bont.



Awtsh!
Fy ffêr i!

Roedd o wedi troi'i ffêr.

“Fedri di ddim sefyll ar y ffêr yna drwy berfformiad heno,” meddai Miss Gruffydd.




“Fydd yn rhaid inni ganslo'r ddrama?” gofynnodd Beca.

Dechreuodd Manon grio.

Ymunodd Menna.

Yna dechreuodd Meinir.

Roedden nhw'n gwneud popeth gyda'i gilydd bob amser. Allsech chi feddwl eu bod nhw'n dripledau.




WAAAA!

Crion nhw ac ochneidio, ochneidion nhw a chrio. Ymdrechodd Miss Gruffydd i wneud pethau'n well. "Does neb yn gweld bai arnat ti, Bedwyr," meddai hi, "felly rho'r gorau i bwdu. Manon a'r Criw, tewch! Fedra i ddim clywed fy hun yn meddwl."

Fedr unrhyw un arall ddysgu'r rhan ... cyn heno?




Edrychodd ar grŵp o fechgyn.




Ochneidiodd Miss Gruffydd.
Ochneidiodd pawb. Roedd yn gwbl amhosib i neb ddysgu'r rhan mewn pryd.

Yna cododd Beca ar ei thraed.
“Be amdana i?”
gofynnodd.


Rydw i wedi ymarfer y rhan
efo Robin. Rydw i wedi bod
yn yr ymarferion i gyd.
Medrwn i ei wneud yn iawn. A
medrai Manon wneud fy rhan
i fel boneddiges.



Stopiodd Manon grio ar ganol sniff.
“Ga i?” gofynnodd.



Bloeddiodd pawb
“HWRÊ!”



Llifodd dagrau o hapusrwydd o lygaid
Manon a'r Criw.


“Mae un broblem arall,” meddai’r
ysgrifenyddes yn dod i mewn gyda neges
ffôn.



“O na!” meddai Bedwyr.

“O na!” meddai Beca.

“O NA!!!!” meddai pawb arall heblaw
Manon a’r Criw oedd yn sgrechian crio
erbyn hyn. A rŵan roedd Beca yn ymuno
a Jac hefyd. Roedd llygaid Bedwyr hyd yn
oed braidd yn goch.



Doeddwn i ddim yn teimlo’n rhyw
hapus iawn fy hun. Chawn i ddim bod yn
Robin Hwd ... a finnau wedi gwneud
cymaint o ymdrech.


Cawn gyfarfod yn y
gors, myn brain.

Wedi'r holl ddysgu
yna yn y toiled.

Wedi'r holl ymarfer yna yn
y parc.

Wedi'r holl ddarllen yna yn fy ngwely
ac wedi'r holl ymarfer yna efo Taid fel y
cle ...

Hei!!!! Mae
gen i syniad.



Ond ffonion ni Taid a daeth o i'r ysgol.



Dawnsiodd ei ddawns glerwr wallgo a
chytunai pawb ei fod yn ardderchog.

Gwenodd yn falch.

Ochneidiodd Miss Gruffydd ochenaid
fawr o ryddhad ac roeddwn i'n
teimlo ... fel arwr.



Yn y perfformiad y noson honno roedd
o bron yn berffaith.

Un camgymeriad wnaeth o. Roedd o'n
mynnu dweud Robin Ni yn lle Robin
Hwd. Roeddwn i'n hoffi hynny.

Am Robin Ni O! dowch i wrando
Ar ei hanes wrthi'n brwydro,
Gelyn ydoedd i'r cyfoethog
Ond i'r tlawd yn ffrind godidog.
Brwydro'n ddewr â'i holl elynion
Arwr mentrus, mawr ei galon.





Ac roedd pawb yn
clapio ac yn
clapio ac yn clapio.



Hwrê!

Hwrê!

Hwrê!

Hwrê!

Hwrê!

Eitha
da!

Am yr awdur

Rwyf wedi ysgrifennu tua hanner cant o storïau ar gyfer plant.

Byddaf yn gweithio ar y stori gartref ac yn cychwyn drwy wneud nodiadau bach blêr ar dameidiau bychain o bapur. Yna byddaf yn ei theipio ar fy nghyfrifiadur ac yn ei rhoi mewn drôr.

Bob hyn a hyn byddaf yn ei thynnu allan ac yn newid tipyn arni. Bob tro y byddaf yn gweithio arni mae'n gwella mymryn bach. Ymhen hir a hwyr byddaf yn teimlo ei bod yn ddigon da i'w hanfon at gyhoeddwr.

Yna, bydd y cyhoeddwr yn ei gwneud yn llyfr, fel hwn, i chi ei ddarllen a'i fwynhau.



Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 12:

Pecyn A *Sami Sgrap* gan Carolyn Bear
Robin Woods a'i Ddynion Llon gan Michaela Morgan
Boris y Bochdew gan Pippa Goodhart
Esgidiau Glas gan Angela Bull
Y Datgelwr Celwyddau gan Susan Gates
Trip Traed Moch gan Michaela Morgan

Pecyn B *Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy* gan Angela Bull
Cranwen Grachaid gan Pippa Goodhart
Pasia'r Bêl, Tad-cu gan Debbie White
Tipyn o Boendod gan Michaela Morgan
Shelley Holmes Ditectif Di-ail gan Michaela Morgan
Dyma Drwbwl gan Tessa Krailing

Pecyn C *Ffasiwn Steil!* gan Michaela Morgan
Lwc Luc gan Paul Shipton
Ffoniwch 999! gan Sylvia Moody

Robin Woods a'i Ddynion Llon

Mae Robin Woods eisiau actio
Robin Hwd yn y ddrama ddosbarth.
(Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl!)
Ond mae pawb arall eisiau gwneud
hynny hefyd.



Brig y Goed



Coeden
Ddarllen
Rhydycher

Cam 12

ISBN 0-86174-480-2



9 780861 744800

ISBN 0-86174-480-2

DRAKE